# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales

## Gwybodaeth hanfodol



Llesiant



Pobl



Gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio



Gwasanaethau ataliol

# Beth yw hyn?

Daw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ym mis Ebrill 2016. Hwn yw'r fframwaith cyfreithiol newydd sy'n dwyn ynghyd ac yn moderneiddio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol.

## Yn ogystal â'r Ddeddf, bydd

Rheoliadau – Is-ddeddfwriaeth, os bydd angen rhagor o fanylion

Codau ymarfer – Canllawiau i helpu pobl a sefydliadau i weithio o fewn y gyfraith

## Mae 11 rhan i'r Ddeddf:

1. Cyflwyniad
2. Swyddogaethau cyffredinol
3. Asesu anghenion unigolion
4. Diwallu anghenion
5. Codi ffioedd ac asesiadau ariannol
6. Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya
7. Diogelu
8. Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol
9. Cydweithrediad a phartneriaeth
10. Cwynion, sylwadau a gwasanaethau eirioli
11. Atodol a chyffredinol

# Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud?

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hyrwyddo llesiant y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn newid y sector gwasanaethau cymdeithasol:

- Bydd gan bobl reolaeth dros y math o gymorth sydd ei angen arnynt, a byddant yn cael llais, fel partner cyfartal, yn y penderfyniadau a wneir am y gofal a'r cymorth a gânt
- Caiff asesiadau cymesur newydd eu cynnal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Mae gan ofalwyr yr un hawl â'r rhai y maent yn gofalu amdanynt i gael asesiad o'u hanghenion
- Mae'n hawdd i bawb gael hyd i wybodaeth a chyngor
- Mae pwerau cryfach i ddiogelu pobl
- Mae dulliau ataliol yn cael eu defnyddio i ddiwallu anghenion gofal a chymorth
- Caiff partneriaethau statudol newydd eu creu rhwng Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i weithio'n fwy arloesol ac i integreiddio a newid gwasanaethau.

# Beth yw egwyddorion y Ddeddf?

- Mae'r Ddeddf yn helpu i sicrhau **llesiant** y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt.
- Mae'r system newydd yn canolbwyntio ar **bobl** – ac yn rhoi llais cryf iddynt yn y penderfyniadau a wneir am y cymorth a gânt
- Caiff gwasanaethau eu darparu drwy **bartneriaethau** a drwy gydweithredu
- Bydd gwasanaethau'n ceisio **atal** anghenion rhag cynyddu a bydd y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn.

# Llesiant

Pan fyddwn yn sôn am sicrhau llesiant, byddwn yn sôn am sicrhau bod pobl yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'u bywydau a'r hyn y maent yn ei wneud.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Datganiad Llesiant sy'n esbonio beth y mae hyn yn ei olygu. Cafodd ei baratoi gyda'r rhai sy'n defnyddio ac yn darparu gwasanaethau cymdeithasol.

## Mae'n dweud bod wyth agwedd wahanol ar lesiant, sef gwneud yn siŵr:

- Bod gennych eich hawliau
- Eich bod yn hapus yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol
- Eich bod yn cael eich diogelu rhag cael eich cam-drin, eich niweidio a'ch esgeuluso
- Eich bod yn cael addysg a hyfforddiant ac yn cael cyfle i chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon
- Bod gennych berthynas dda â'ch teulu a'ch ffrindiau
- Eich bod yn rhan o'r gymuned
- Bod gennych fywyd cymdeithasol a digon o arian i fyw'n iach
- Bod gennych gartref da

# Pobl

## Asesiadau a chynlluniau gofal

Mae asesiadau'n cael eu cynnal i benderyfnu ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion unigolion.

Mae'r broses newydd yn syml ac yn osgoi gwaith papur diangen.

Mae'r pwyslais ar yr hyn sy'n bwysig i'r rhai sy'n cael eu hasesu a sut y gallant ddefnyddio'u cryfderau a'u hanoddau i'w helpu eu hunain. Partneriaeth rhwng y person a'r gweithiwr proffesiynol fydd yr asesiad.

Mae modd i bartneriaid gwahanol gynnal asesiadau ar yr un pryd. Gall un corff gynnal asesiadau ar ran y gweddill.

**Bydd gan ofalwyr yr un hawl i gael asesiad**

## Diogelu

Mae pwerau cryfach i ddiogelu oedolion a phlant rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a chaiff Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ei sefydlu.

Os bydd unrhyw amheuaeth ynglŷn â diogelwch oedolyn neu blentyn, bydd yn RHAID rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol.

## Asesiadau ariannol a chodi ffioedd

Mae fframwaith symlach a fydd yn cyflwyno un set o asesiadau ariannol a threfniadau i godi ffioedd am ofal preswyl a gofal yn y cartref.

Bydd y system yn fwy tryloyw – bydd pawb sy'n gorfod talu am wasanaeth yn cael adroddiad ariannol yn dangos am beth yn union y maent yn talu. Bydd proses adolygu cyffredinol yn caniatáu i berson gywiro neu holi am gywirdeb unrhyw daliadau.

## Hefyd:

Mae modd i bobl fanteisio ar **wasanaethau eirioli** i'w helpu i gael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**Mae pobl ifanc yn cael cymorth i aros gyda'u gofalwyr maeth** nes byddant yn 21 oed, os dyna'u dymuniad (neu 25 oes os ydynt yn dal i gael addysg neu hyfforddiant)

Mae rhagor o bobl yn gallu hawlio **Taliadau Uniongyrchol** – cael arian – os ydynt, ar ôl cael eu hasesu, yn dewis mynd ati eu hunain i drefnu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

# Gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio

Rhaid i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG weithio'n agos i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio'n well.

## Byrddau Partneriaeth

Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd weithio gyda'i gilydd i asesu anghenion gofal a chymorth pobl (a gofalwyr) yn eu hardal. Yna, gallant benderfynu ar y gwasanaethau y mae angen eu darparu.

Rhaid iddynt sicrhau bod eu hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

### Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth hefyd flaenoriaethu'r broses o integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â'r canlynol:

- Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan  gynnwys dementia
- Pobl ag anableddau dysgu
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cael ei ddarparu gan lywodraeth leol gan gydweithio â chyrff gwirfoddol. Mae'n dod â holl awdurdodau lleol Cymru ynghyd i gyflymu'r broses a sicrhau bod cymorth ôl-fabwysiadu o ansawdd dda ar gael.

# Gwasanaethau ataliol

Bydd awdurdodau lleol yn trefnu'r gwasanaethau ataliol priodol i leihau'r angen i ddarparu cymorth ffurfiol yn eu hardal.

Caiff hyn ei seilio ar asesiad y bydd yr Awdurdodau Lleol yn ei gynnal mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol. Bydd yn cadarnhau'r gofal a'r cymorth sydd ei angen ar bobl, a'u gofalwyr, yn eu hardal.

## Mae rhaid i awdurdodau lleol:

### Ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth dwyieithog.

Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i bawb gael gwybodaeth a chyngor clir a pherthnasol am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn yr ardal. Bydd hyn yn eu helpu i benderfynu ar y cymorth sydd eu hangen arnynt i fyw fel y dymunant. Bydd y gwasanaeth hwn yn groesawgar a bydd yn rhoi cymorth i bobl gael hyd i atebion i'w problemau'n fuan. Bydd yn wasanaeth ataliol ynddo'i hun.

### Hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chynlluniau cydweithredol sy'n cynnwys y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt .

Busnes sy'n buddsoddi unrhyw elw yn ôl yn ei wasanaethau neu yn y gymuned yw menter gymdeithasol.

Grŵp sy'n cydweithio'n wirfoddol i ddiwallu angen economaidd neu gymdeithasol yw cwmni cydweithredol.

Mae gwybodaeth am sefydlu menter gymdeithasol ar wefan Busnes Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

https://business.wales.gov.uk/socialbusinesswales/cy

# Sut y byddwn yn mesur llwyddiant?

- Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a'r rhai sy'n gofalu amdanynt, yn disgrifio'r canlyniadau llesiant pwysig y dylai pobl eu disgwyl er mwyn iddynt fedru byw bywydau llawn.

Cafodd ei gynhyrchu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a'r rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol yn esbonio'r cynnydd a wneir o ran sicrhau llesiant. Caiff tystiolaeth ei chasglu gan amrywiaeth o gyrff, sectorau ac unigolion i fesur llwyddiant ac i dynnu sylw at yr agweddau y mae angen eu gwella.

- Bydd fframwaith mesur perfformiad awdurdodau lleol yn helpu awdurdodau lleol i gymharu a meincnodi eu perfformiad, ac yn eu helpu i ddysgu a gwella. Bydd yn caniatáu i bobl ddeall safonau gwasanaethau cymdeithasol a gwneud penderfyniadau gwybodus am y gofal a'r cymorth a gânt.

## Rhagor o wybodaeth:

### Ar-lein:

Llywodraeth Cymru – www.gov.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – www.cynulliad.cymru

Canolfan Wybodaeth a Dysgu – www.ccwales.org.uk/getting-in-on-the-act-hub/

### Twitter:

@DHSSWales #SSWbAct

### E-bost:

Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru
SustainableSocialServices@wales.gsi.gov.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 26648